Dywedwch wrth bawb

Cysyniadau: **Cenfigen, gwrthdrawiad, meddwl am eraill.**

Amcan: **Rhannu newyddion da.**

Cyfarpar: **Brawddegau ar y bwrdd gwyn – Mae Elin wedi cael crwban a'i enw ydi Araf. Mae ei gragen yn frown golau ac mae'n bwyta tomato, letys, moron a glaswellt.**

Cyflwyniad:

● Rydym am chwarae gêm bach syml. Mi fydda i'n dweud rhywbeth yn ddistaw wrth un ohonoch ac mi fydd rhaid i'r plentyn hwnnw ddweud y neges yn ddistaw wrth un arall a hwnnw wrth un arall. Galw ar 6 i 8 o blant i'r blaen. Sibrwd y brawddegau uchod wrth y plentyn cyntaf a hwnnw i'r ail ac yn y blaen.

● Ar ôl i'r plentyn olaf dderbyn y neges bydd rhaid iddo ddweud y neges wrth y plant i gyd. Tybed ai dyma'r neges a gafodd y plentyn cyntaf? Dangos y neges (y brawddegau) ar y bwrdd gwyn.

● Ar y ffordd efallai fod y neges wedi'i chamddeall. Efallai nad oedd un o'r plant wedi siarad yn glir, neu heb wrando'n astud, neu wedi anghofio rhan o'r sgwrs. Neu efallai fod y neges wedi aros yr un fath ar hyd y daith. Os hynny, mae'n amlwg fod y plant yn wrandawyr da iawn.

Stori:

Ar ôl bwyta cinio yn yr ystafell fwyta byddai Gwyn a Tom yn mynd yn syth i gornel y cae chwarae. Byddai'r plant mawr, yn enwedig y bechgyn, yn chwarae pêl-droed a'r genethod yn chwarae pêl-rwyd, er

y byddai rhai genethod yn ymuno efo'r bechgyn i chwarae pêl-droed.

Ond ym Mlwyddyn 2 oedd Gwyn a Tom. Roedden nhw'n gobeithio chwarae rygbi pan fydden nhw ym Mlwyddyn 5 a 6. Ond, beth oedden nhw'n wneud yng nghornel y cae chwarae, tybed? Dyna lle roedden nhw'n cynllunio beth oedden nhw am ddweud wrth Miss Ifans, yr athrawes, am ambell un o'r plant yn eu dosbarth.

'Wn i,' meddai Tom, 'beth am i ni ddweud bod Gerwyn wedi dwyn pensil oedd ar ddesg Miss Ifans a'i fod o wedi'i thaflu i'r gwrych.'

'Ie, dyna syniad da, ac mi gaiff Gerwyn ffrae gan Miss Ifans ac efallai y bydd rhaid iddo fynd at Mrs Huws, y pennaeth, i gael ffrae arall,' meddai Gwyn.

Canodd y gloch. Amser cinio ar ben ac aeth Tom yn syth at Miss Ifans i ddweud bod Gerwyn wedi dwyn pensil oddi ar ddesg Miss Ifans a'i fod wedi'i thaflu i'r gwrych.

'Beth?' gofynnodd Miss Ifans braidd yn flin. 'Wedi dwyn pensil ac wedi'i thaflu i'r gwrych? A phwy wnaeth hyn?'

'Gerwyn', meddai Gwyn yn ddiniwed, 'mi wnaeth o ddwyn y bensil cyn i ni fynd i gael cinio.'

'Gerwyn,' gofynnodd Miss Ifans. 'Ydi hyn yn wir? Wnaethoch chi ddwyn pensil oddi ar y ddesg a'i thaflu i'r gwrych?'

'Naddo, Miss Ifans, wnes i ddim y fath beth.'

'Ydych chi'n berffaith siŵr, Gerwyn?'

'Yndw Miss Ifans.' Dechreuodd Gerwyn grio.

'Wel', meddai Miss Ifans, 'mae 'na rywun yn dweud celwydd. Ydych chi Tom a Gwyn yn dweud celwydd neu ydych chi Gerwyn yn dweud celwydd? Pwy sydd yn dweud celwydd?'

Trafodaeth bellach:

- Ydych chi'n cofio pwy oedd yn dweud celwydd?
- Pam y penderfynodd Gwyn a Tom ddweud celwydd am Gerwyn?
- Oedd y stori yna yn werth ei dweud wrth bawb? Pam?

Dyfyniad o'r Beibl:
Dywedodd Iesu Grist wrth ei ffrindiau am fynd o gwmpas i rannu'r newyddion da amdano:
"Ewch i gyhoeddi'r (i ddweud) newyddion da i bawb drwy'r byd i gyd."
Marc 16:15 beibl.net

Emyn: Mae Duw yn caru pawb: Clap a Chân i Dduw 44

Munud i feddwl:
Newyddion da sy'n ein gwneud yn hapus.

Myfyrdod/Gweddi:
O Dduw, wnei di ein dysgu i rannu y newyddion da am Iesu Grist trwy ddweud amdano a thrwy helpu'r bobl i wneud y byd yn well lle i fyw ynddo? Diolch. Amen.